**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Ymchwiliad:** Llwybrau prentisiaeth
**Cyf:** AP38
**Ymateb gan:** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

-

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Inquiry:** Apprenticeship pathways
**Ref:** AP38
**Evidence from:** Welsh Local Government Association (WLGA)

# Tystiolaeth Ysgrifenedig CLILC

## Ymgynghoriad Llwybrau i Brentisiaethau'r Senedd

Cliriwyd gan: Y Cynghorydd Hunt (Llefarydd Gweithlu CLILC), y Cynghorydd Gebbie (Llefarydd Gweithlu CLILC)

Awdur: Alyson Watkins, Swyddog Polisi (Gweithlu)

Alyson.watkins@wlga.gov.uk

17 Chwefror 2025

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u Cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Drwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod yn y pen draw** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau Cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hyrwyddo swyddogaeth a statws Cynghorwyr ac arweinwyr Cynghorau
- Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i Gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Ymchwiliad Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ar Lwybrau i Brentisiaethau. I gyd-fynd â'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad, mae pob ymateb wedi cael ei baratoi yn unol â'r adran berthnasol.

## 1. Llwybrau rhwng lefelau prentisiaethau

***Y graddau y mae heriau wrth fapio llwybrau gyrfa drwy'r lefelau prentisiaethau gwahanol, megis o brentisiaeth iau i brentisiaeth gradd er enghraifft. A yw hyn yn anoddach mewn rhai gyrfaoedd/sectorau nac eraill***

Mae Awdurdodau Lleol yn teimlo bod yr heriau presennol yn bodoli gyda mapio llwybrau gyrfa, a'u bod wedi canfod hyn i fod yn fwy amlwg mewn rhai sectorau nag eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys

- Pensaernïaeth Tirwedd,
- Coedyddiaeth,
- Sgiliau Gwyrdd,
- Safonau Masnach,
- Iechyd y Cyhoedd, Gwarchod y Cyhoedd ac Iechyd yr Amgylchedd
- Rheoli Adeiladu
- Cynllunio a Pheirianneg Sifil,
- Pensaernïaeth,
- Gofal Cymdeithasol,
- Refeniw a Chyllid (nid cyllid yn unig AAT),
- Gofal Anifeiliaid a
- Chaffael.

Mae Awdurdodau Lleol yn teimlo bod meysydd i'w gwella yn y system gyfredol. Mae heriau'n bodoli wrth ystyried cynnydd o fewn y system gyfredol yn nhermau:

1. Eglurder
2. Argaeledd llwybrau
3. Priodoldeb llwybrau ac
4. Ariannol.

**Eglurder**
Yn nhermau eglurder, y farn gyffredinol yw nad yw llwybrau cynnydd yn glir bob amser wrth symud o un lefel prentisiaeth i'r nesaf. Mae ychydig o ddryswch yn bodoli yn nhermau gofynion dysgu'n seiliedig ar waith i ddangos cynnydd drwy'r lefelau amrywiol.

**Argaeledd llwybrau**

Mewn perthynas ag argaeledd llwybrau, mae barn fod diffyg argaeledd o gymwysterau lefel uwch/Lefel 4 a llwybrau gyrfa penodol drwy bob lefel yn golygu nad yw cynnydd yn cael ei alinio i lwybr addysg blaenorol y dysgwr. Yn ychwanegol at hynny, efallai na fydd rhai prentisiaethau sy'n alinio gyda galwedigaethau llywodraeth leol ar gael drwy ddarparwyr yng Nghymru, er enghraifft y Safonau Masnach. Byddai canlyniadau anfwriadol yn golygu wrth symud rhwng lefelau, mae angen i'r prentis symud i ddarparwr gwahanol, a allai effeithio ar ddatblygiad sgiliau a gwybodaeth mewn maes penodol, sydd ddim bob tro yn ffordd gynaliadwy o ddysgu a darparu'r gwerth a fwriedir. Yn ychwanegol at hynny, mae Awdurdodau Lleol yn gorfod edrych tu allan i Gymru am ddarparwr, y ogystal â'r math a'r lefel o brentisiaethau sy'n ofynnol, sy'n arwain at gynnydd mewn costau, ac yn y pendraw, fe all olygu nad yw Awdurdodau Lleol yn derbyn buddion llawn eu buddsoddiad drwy'r ardoll brentisiaethau.

**Priodoldeb llwybrau**
Gall diffyg llwybrau addas fod yn her hefyd oherwydd bod hyn yn gorfodi gweithwyr i addasu neu fabwysiadu fframweithiau nad yw'n cyd-fynd yn llwyr gyda swydd y mae gweithiwr yn sector yr Awdurdod Lleol yn ei berfformio ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, nid yw rai fframweithiau wedi'u halinio, neu'n berthnasol i anghenion y sector neu'r diwydiant, gan olygu efallai nad yw'r llwybrau yn gynaliadwy neu'n berthnasol.

**Cyllid**
Yn olaf, mae heriau ariannol yn parhau sy'n sylweddol ac yn cyflwyno her wrth ddefnyddio'r system gyfredol. Enghraifft a ddarparwyd gan un o'n Hawdurdodau Lleol yw, pan mae prentisiaeth lefel iau yn cael ei hariannu, ond efallai nad yw'r ail lefel yn cael. O ganlyniad i heriau ariannol presennol o fewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mae hyn yn debygol o rwystro cynnydd mewn gyrfa drwy'r llwybr prentisiaeth ar y sail na fydd Awdurdodau Lleol yn gallu ariannu hyfforddiant a buddsoddiad pellach mewn gweithwyr drwy'r llwybr prentisiaeth, ac o ganlyniad yn cyfyngu cyfleoedd y cynllun. Efallai bod angen ystyried adenillon ariannol ar fuddsoddiad mewn perthynas â'r ardoll brentisiaethau yng Nghymru a chostau'r ardoll yn erbyn y manteision ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Mae awdurdodau lleol yn credu y dylai'r llwybrau gael eu datblygu i fod yn rhai a arweinir gan gyflogwyr, er mwyn sicrhau bod y sgiliau priodol ac angenrheidiol yn cael eu hennill a bod ymgeiswyr yn barod ar gyfer swydd. Hoffa un Awdurdod Lleol allu cael mynediad i, a darparu prentisiaethau lefel Gradd sy'n gysylltiedig â rolau o fewn yr Awdurdod Lleol er mwyn gallu cynnig dewis arall nad yw'n Brifysgol, ac sydd wedi'i gefnogi gan lwybr gyrfa eglur. Bydd hyn yn sicrhau bod llwybrau prentisiaeth yn helpu i fynd i'r afael â chanlyniadau cynllunio ar gyfer y gweithlu ac olyniaeth, a chefnogi buddsoddiad mewn gweithwyr a'u cymunedau lleol. Yn ail, er mwyn ehangu argaeledd swyddi, awgrymir y gallai cynyddu'r cynnig o gyrsiau lefel uwch (ac eithrio cyrsiau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth) mewn meysydd penodol helpu, er enghraifft y maes Peirianneg a Chynllunio. Yn olaf, mae awgrym ar gyfer datblygu canllawiau mewn fformat syml a hygyrch.

O ganlyniad i'r heriau a nodwyd, efallai na fydd Awdurdodau Lleol yn gallu defnyddio'r system brentisiaethau er mwyn cynyddu gallu, a mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd drwy gynllunio'r gweithlu ac olyniaeth, ac o ganlyniad nid ydynt yn teimlo fel eu bod yn cyflawni'r gwerthoedd y dylai prentisiaid eu cyflwyno ym mhob maes o'r Awdurdod Lleol, ond yn benodol wrth fynd i'r afael â swyddi sy'n anodd eu llenwi neu sy'n arbenigol.

**<u>Economi</u>**

***Y graddau y mae'r llwybrau i brentisiaethau yn cefnogi anghenion busnesau Cymraeg ac yn cyfrannu at lenwi'r bylchau yn economi Cymru.***

Yng Nghymru, y Llywodraeth Leol yw un o'r cyflogwyr mwyaf, a gall fod yn aml yn un o'r cyflogwyr mawr prin yn yr ardal leol, felly mae hi'n gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru yn nhermau cyflogaeth.

Yn gyffredinol, mae barn gymysg ynglŷn â'r graddau y mae'r llwybrau i brentisiaethau sy'n cael eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol yn cyfrannu at fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau, buddsoddiad a thwf yn economi Cymru, gyda'r awgrym bod angen cynnal rhagor o ymgynghori gyda chyflogwyr llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod yr ystod o lwybrau o brentisiaethau sy'n cael eu cynnig yn addas at y diben ac yn cyd-fynd ag anghenion cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae rhai yn gweld y llwybrau i brentisiaethau yn alluogwr ar gyfer Awdurdodau Lleol i fuddsoddi yn eu gweithwyr drwy ystod o gamau yn eu gyrfaoedd, gan gefnogi datblygiad gwybodaeth a sgiliau. Mae darparu cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu mewn swyddi lefel mynediad, ac yna dangos cynnydd yn eu gyrfaoedd yn gyfrannwr allweddol wrth gefnogi gwelliant i'r economi a lles cymdeithasol, a chyflogaeth gynaliadwy. Gall llwybrau ddarparu mecanwaith pwysig er mwyn diweddaru neu gynnig sgiliau newydd i staff mewn ymateb i swyddi neu ofynion busnes yn newid, ac o ganlyniad cefnogi'r gweithwyr a'r economi'n ehangach i ddarparu trosglwyddiad teg a chynnal cyflogaeth gynaliadwy.

Cafodd yr amrywiaeth o lwybrau sydd ei hangen ei nodi fel pwynt pwysig yma. Mae barn ei bod yn haws cael mynediad at rai llwybrau, er enghraifft, mewn swyddi TGCh lefel is. Rhannodd un Awdurdod Lleol eu llwyddiant wrth recriwtio Prentisiaid TGCh, a'u bod wedi datblygu eu haddysg a'u datblygiad i gwblhau cymwysterau lefel uwch a chyflogaeth gysylltiedig, ac o ganlyniad, o fantais i'r economi leol.

Serch hynny, mae yna heriau o hyd pan mae Awdurdodau Lleol yn dymuno mynd i'r afael â bylchau sgiliau mewn swyddi arbenigol o lefel uwch, er enghraifft Datblygwyr Meddalwedd TGCh, Gwaith Amgylcheddol, Peirianneg Sifil, Cynllunio a Therapyddion Galwedigaethol yn benodol. Nid oes digon o gyfleoedd ar gael ar gyfer cymwysterau Lefel 4, ac o ganlyniad nid yw awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r llwybrau i brentisiaethau fel modd o fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau.

Er mwyn alinio'r rhaglenni gyda gofynion economaidd sy'n esblygu, awgrymir bod angen adolygiadau parhaus a rhagor o waith rhwng addysg, cyflogwyr llywodraeth leol a gwneuthurwyr polisïau. Mae angen rhagor o ymgynghoriad gyda rheolwyr recriwtio, gweithwyr proffesiynol AD a chydweithwyr ar y rheng flaen i nodi lle mae'r bylchau mewn sgiliau, pa gymwysterau maent yn teimlo sydd eu hangen ar gyfer cynnydd a datblygiad personol, a sut gellir dylunio fframwaith prentisiaeth i'w goresgyn.

Gellir cryfhau llwybrau drwy wella'r cyswllt rhwng bylchau mewn sgiliau economaidd a chyflogwyr gydag addysg a hyfforddiant ôl 16. Mae awgrym gan un Awdurdod Lleol o'r angen i ddatblygu sgiliau STEM a chynyddu cyfranogiad mewn ysgolion (cwricwlwm ffurfiol ac anffurfiol) er mwyn cynyddu dyheadau a diddordeb mewn llwybrau cymheiriaid o fewn Awdurdodau Lleol. Awgrymir y dylid nodi llwybrau perthnasol a bylchau mewn sgiliau er mwyn datblygu hyfforddiant a phrentisiaethau i fynd i'r afael â bylchau/sgiliau'r dyfodol. Hoffa un Awdurdod Lleol weld rhagor o gymwysterau penodol er mwyn diwallu'r bwlch sgiliau mewn meysydd penodol.

Mae barn y dylai trefniant ardoll yng Nghymru gael ei werthuso er mwyn asesu'r gost yn erbyn buddion i Awdurdodau Lleol, gan ddarparu adenillon ariannol ar fuddsoddiad, a sicrhau ei fod yn fuddiol wrth ddatblygu economi Cymru. Mae pwysau ariannol presennol ar Awdurdodau Lleol yn golygu eu bod yn gorfod cyfyngu ar 1) Recriwtio eu gweithlu a 2) Buddsoddi mewn datblygiad staff, ac nid ydynt yn defnyddio'r llwybrau ar brentisiaethau mor llawn ag yr hoffent, sydd yn ei dro yn effeithio ar gyflogaeth mewn meysydd lleol a chenedlaethol. Gallai dadansoddi effaith yr ardoll wrth fodloni anghenion cyflogwyr o fewn y llywodraeth leol ac yn fwy eang ffurfio rhan o'r gwerthusiad hwn er mwyn sicrhau ffordd gadarn a chynaliadwy ymlaen ar gyfer llwybrau i brentisiaethau yng Nghymru.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, mae cefnogaeth ymysg Awdurdodau Lleol y byddai prentisiaeth wedi'i hariannu'n llawn, yn benodol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru a/neu wasanaethau cyhoeddus yn fuddiol i'r economi. Dylid cael llwybr cynnydd clir i gyd-fynd â hyn. Mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn gefnogol o'r dull gwaith hwn, er mwyn annog ffyrdd megis 'tyfu eich hunain' ac arddangos llwybrau gyrfa o fewn Awdurdodau Lleol, swyddi sy'n anodd eu llenwi'n benodol, gan gefnogi cyflogaeth, ac o ganlyniad, yr economi. Tybir y gallai'r dull hwn o weithio gynnwys y swyddi mwy cyffredin/craidd sydd yn y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol/gwasanaethau cyhoeddus, a byddai'n cynyddu ymwybyddiaeth o waith a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol, gan ddarparu mynediad i gyflogaeth drwy amrywiaeth o gynnwys a lefelau'r llwybr. Byddai angen ei gydnabod fel llwybr mynediad i lywodraeth leol/gwasanaethau cyhoeddus a darparu cynnydd i swyddi mwy arbenigol o lefel uwch mewn lleoliad Awdurdod Lleol. Byddai angen i'r llwybrau gydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yn amrywiol o ran cynnig y llwybrau sydd ar gael, er mwyn sicrhau bod gwerth yn cael ei ychwanegu.

Amlygwyd y Cynllun Graddedigion gwasanaethau cyhoeddus a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru fel dull o weithio a allai gael ei fabwysiadu wrth ddylunio llwybr

i brentisiaethau er mwyn cefnogi Awdurdodau Lleol/gwasanaethau cyhoeddus, ond ar lefel is er mwyn cefnogi cyflogaeth lefel mynediad.

**Cyflogwyr**

***Ymgysylltiad cyflogwyr wrth hwyluso'r llwybrau hyn ac atynnu prentisiaid. A oes angen cefnogaeth benodol ar gyfer busnesau bach a chanolig er mwyn ymgysylltu gyda'r rhaglen brentisiaeth?***

Mae Awdurdodau Lleol yn parhau i ymrwymo i gefnogi a chynnig prentisiaethau priodol, ond byddant yn croesawu rhagor o gefnogaeth, canllawiau a chymorth cyllid/ariannol er mwyn cyflawni hyn, yn ychwanegol at fynd i'r afael â'r heriau sydd wedi cael eu rhannu o fewn ddogfen hon.

Byddai cefnogaeth a chanllawiau pellach ar ddarparwyr prentisiaethau yng Nghymru, a chymwysterau a llwybrau penodol i brentisiaethau yn y gwahanol feysydd gwasanaeth/arbenigedd o fewn Awdurdod Lleol yn fanteisiol. Yn ychwanegol at hynny, gellir cefnogi unrhyw gymwysterau mynediad a allai effeithio ar sut mae Awdurdodau Lleol yn hysbysebu a recriwtio ymhellach, a'u cyfathrebu'n glir. Un awgrym oedd darparu rhagor o gefnogaeth/adnoddau i helpu Awdurdodau Lleol i hyrwyddo prentisiaethau yn fewnol ac yn allanol (cyflwyniad PowerPoint er enghraifft sy'n arddangos ystod o enghreifftiau llwyddiannus o brentisiaeth sydd wedi arwain at yrfa mewn Llywodraeth Leol/Sector Cyhoeddus, a oedd yn awgrym defnyddiol ar gyfer ffordd ymlaen).

Cyflwynodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru mewn cyfarfod llywodraeth leol yng nghanolbarth Cymru yn 2025, a oedd yn ddefnyddiol ac yn boblogaidd iawn, ond mae angen cefnogaeth barhaus i wneud y mwyaf o fynediad i, a defnydd prentisiaethau.

Mae yno farn y byddai cynnydd i gymorth/cyllid ariannol yn cefnogi gallu Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael ymhellach gyda rhaglenni prentisiaeth, yn ychwanegol at fynd i'r afael â'r heriau a godwyd yn yr ymateb hwn.

Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i sut mae Awdurdodau Lleol yn ariannu costau cyflog ar gyfer prentisiaethau, ac a oes cyfle i gynnig cymhelliad neu gefnogaeth, gan fod yno farn y byddai hyn yn fanteisiol, yn enwedig o ystyried yr anawsterau ariannol sylweddol y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu. Byddai'r dull hwn yn cael ei weld fel ffordd o ganiatáu i'r Awdurdod Lleol hyrwyddo ac ymestyn cwmpas prentisiaethau, er mwyn darparu pob maes gwasanaeth gyda'r cyfle i ymgysylltu â, a recriwtio prentis, mewn cyfnod o galedi ariannol.

**Gwybodaeth am Brentisiaethau**

***Arferion da rhwng gwasanaethau gyrfaoedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr yn nhermau hyrwyddo prentisiaethau a darpariaeth profiad gwaith ystyrlon.***

Mae awdurdodau lleol yn parhau i ymrwymo i weithredu lefel uchel o ymgysylltiad gydag ysgolion, colegau a gwasanaethau gyrfaoedd, ac mae mwy o awydd i barhau gyda'r cydweithio hwn, ond yn fwy cyffredinol, mae Awdurdodau Lleol yn teimlo y gallai fod gwelliant yn y maes hwn, ac mae ymgysylltiad wedi cael gwahanol lefelau o lwyddiant hyd yma.

Mae yno farn bod rhai ysgolion yn parhau i hyrwyddo'r Brifysgol yn fwy na llwybrau i brentisiaethau, a bod angen i ysgolion godi mwy o ymwybyddiaeth o rolau gyrfa a llwybrau cynnydd sydd ar gael o fewn Awdurdodau Lleol.

Gallai cysylltiadau wella gyda darparwyr addysg hefyd, er enghraifft yn y maes gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant yn fwy galwedigaethol ac y llai academaidd, ac o ganlyniad yn darparu dull o weithio sy'n fwy ystyrlon a di-dor o ran profiad gwaith a chyflogaeth. Byddai hyn yn helpu gyda chyfraddau gadael mewn sector sy'n wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff, ac yn sicrhau bod prentisiaid yn paratoi'n llwyr ar gyfer realiti byd gwaith.

O ran gwasanaethau gyrfaoedd, mae yno farn bod gwaith Gyrfa Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau wedi'i gyfyngu tu hwnt i'w cynnig craidd mewn ysgolion o ran cyngor gyrfaoedd a chanllawiau, neu brofiad gwaith, ac awgrymir bod mwy o waith yn cael ei gynnal i ystyried profiad gwaith a hyfforddiant, a llwybrau i brentisiaethau fel proses ddi-dor, gan gynnwys partneriaid o'r meysydd addysg, gyrfa a busnes.

**<u>Tegwch cefnogaeth a mynediad ar gyfer dysgwyr</u>**

***Y graddau y mae llwybrau i brentisiaethau yn cael eu cynnig i bob person ifanc yng Nghymru, ac unrhyw rwystrau sy'n wynebu grwpiau demograffig neu ardaloedd daearyddol penodol.***

Mae lleoliad daearyddol a dewisiadau cludiant yn heriau pwysig i'w codi, yn enwedig o fewn ein cymunedau gwledig. Mae pryder y byddai rai grwpiau dan anfantais pan mae diffyg cludiant cyhoeddus gan olygu y bydd rhai cyfleoedd ond yn addas ar gyfer y sawl sy'n gyrru (bydd pobl ifanc 16 mlwydd oed yn gyda chludiant cyhoeddus cyfyngedig yn cael eu hatal rhag dewis llwybrau i brentisiaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau, oedd un enghraifft a ddarparwyd).

Un awgrym yw cryfhau cyllid yn y maes hwn, er mwyn sicrhau nad yw mynediad yn cael ei gyfyngu i unrhyw grŵp dysgu oherwydd daearyddiaeth a chludiant. Yn ychwanegol ar hynny, cafodd ei nodi bod rhai swyddi arbenigol mewn Awdurdodau Lleol gwledig bychan yn arwain at nifer cyfyngedig o ddysgwyr ar gyfer cymhwyster penodol. O ganlyniad, mae yno fwy o ddibyniaeth ar ddarparwyr mwy o ran maint sy'n cyflwyno canlyniadau anfwriadol, sef 1) cynyddu costau ac ychwanegu pwysau pellach ar gyllidebau'r Awdurdod Lleol a 2) chyfyngu ar ddefnydd y llwybr i brentisiaethau fel mecanwaith i gefnogi mynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau.

Mae nifer o swyddi yn yr Awdurdod Lleol nawr yn darparu ar gyfer gweithio hybrid, ac o ganlyniad gall yr angen am fand eang dibynadwy ar y sawl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig achosi rhwystrau ar gyfer aelodau o'r gymuned sy'n dymuno cael mynediad i gyflogaeth drwy'r cynllun prentisiaeth.

Mae un Awdurdod Lleol y teimlo bod y system bresennol yn darparu ar gyfer llai o brentisiaethau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru. Mae barn bod y system bresennol yn rhy gyfyngedig wrth ystyried meysydd pwnc a fyddai o ddiddordeb i bobl ifanc. Canlyniad anfwriadol o hyn fyddai nad yw'r cynllun yn galluogi Cymru i lwyr wireddu ei nodau dan raglen NEET i'r capasiti a ddymunir.

Mae heriau demograffig eraill yn cynnwys sicrhau bod y system ar gael ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir mewn cymunedau lleol yn seiliedig ar ethnigrwydd ac anableddau, ac yn sicrhau bod brandio prentisiaethau yng Nghymru nid yn unig yn cael ei dargedu at bobl ifanc.  Mae cynyddu dewis cychwyn a gorffen y prentis ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig yn cefnogi'r nodau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Wrth-hiliol.

Pan fo'n angenrheidiol, bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried addasiadau rhesymol er mwyn cefnogi unigolion yn y gymuned neu weithwyr sy'n dymuno mynd ar lwybr i brentisiaeth, ac i gefnogi eu cynnydd yn eu gyrfa, a byddant yn parhau i wneud hynny.

**<u>Rôl Llywodraeth Cymru yw</u>**

***Sut mae polisïau yn cefnogi llwybrau i brentisiaethau ac unrhyw rwystrau sydd angen mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â hynny. Rôl Llywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a budd-ddeiliaid eraill wrth nodi a chyfathrebu anghenion economaidd a sgiliau er mwyn hysbysu fframweithiau prentisiaethau a darpariaeth cymwysterau.***

Yn gyffredinol, teimlwyd y gellir cryfhau polisïau perthnasol. Er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a pharhau i ddatblygu ymarfer yng Nghymru, mae nifer o feysydd y gellir eu gwella, megis adolygu polisïau, cyllid, ymgysylltiad budd-ddeiliaid gydag Awdurdodau Lleol a chefnogaeth fugeiliol.

Mae barn ymysg rhai awdurdodau lleol y byddai cylched adolygu mwy rheolaidd ar gyfer polisïau prentisiaethau yn fuddiol, gan gynnwys budd-ddeiliaid allweddol.

Yn ychwanegol at hynny, mae angen adolygu cyllid, a fyddai'n galluogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru i wireddu adenillon ar eu buddsoddiad ariannol yn y cynllun.   Wedi'i alinio gyda hyn, hoffai'r awdurdodau lleol weld adolygiad o'r trefniant ardoll yng Nghymru i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth prentisiaethau addas a derbyn y budd-daliadau a'r adenillon ar fuddsoddiad yn y cynllun hwn.

Mae’n rhaid i bolisi ganolbwyntio ar gryfhau’r cysylltiadau rhwng cymryd y bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru drwy eu gweithlu a chynllunio olyniaeth, datblygiad a chyllid fframweithiau prentisiaethau addas a rôl budd-ddeiliaid allweddol mewn ysgolion a cholegau wrth hyrwyddo a chyfathrebu llwybrau priodol i brentisiaethau er mwyn diwallu’r fath fylchau ac ysgogi diddordeb yn y sector. Dylai’r dull hwn o weithio ystyried data cenedlaethol o ran swyddi sy’n anodd eu llenwi o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod systemau ar waith at ddefnydd pob budd-ddeiliad, ac er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn mynd i’r afael a’r heriau economaidd a sgiliau ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae yno farn y gallai’r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gryfhau eu polisïau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod llwybrau yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion cyflogwyr o fewn llywodraeth leol i gryfhau cyfleoedd cyflogaeth lleol a chenedlaethol.

Yn olaf, mae yno farn y dylai polisi Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar yr angen ar gyfer gofal bugeiliol wedi’i ariannu’n llawn hefyd, drwy gefnogaeth mentora o fewn y fframwaith prentisiaeth, sydd ar gael i brentisiaid a chyflogwyr.

----------------